Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus / Public Accounts Committee
PAC(5)-25-18 P6

1 Awst 2018

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Rheoli effaith Brexit ar Gronfeydd Strwythurol yr UE

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006.

Roedd tîm yr astudiaeth yn Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Mark Jeffs, Chris Pugh a Seth Newman dan gyfarwyddyd Matthew Mortlock.

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2018

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys

Crynodeb 5

1 Er gwaethaf ymdrechion positif WEFO i ymrwymo holl gyllid yr UE cyn Brexit, wynebodd Cymru risg sylwweddol o golli rhywfaint o gyllid mewn senario dim cytundeb, heb i Lywodraeth y DU ddiwygio telerau ei sicrhad 11

Mae WEFO yn gwneud cynnydd i ymrwymo cyllid ond cydnabu ei bod yn nod anodd iawn ymrwymo holl gyllid yr UE yn yr amserlen fyrrach hyd at fis Mawrth 2019 12

Roedd risg sylweddol y byddai Cymru yn colli cyllid dan senario dim cytundeb hyd nes i Lywodraeth y DU ymestyn ei sicrhad yn ddiweddar iawn 21

Os ceir Cytundeb Ymadael, bydd cyllid strwythurol yr UE yn parhau'n ddinewid i raddau helaeth felly risg gyfyngedig a geir y bydd Cymru yn colli arian sylweddol 25

2 Mae WEFO wedi cynnal archwiliadau cadarn er ei bwriad i gymeradwyo prosiectau a gwario'r cyllid yn gyflymach cyn Brexit 26

Mae WEFO wedi cryfhau ei dull o gymeradwyo prosiectau ac nid yw ond yn ymrwymo i'r rheini sy'n bodloni meini prawf caeth ac sy'n cyd-fynd â'i blaenoriaethau strategol 27

Mae gan WEFO archwiliadau manwl i sicrhau na all prosiectau ond hawlio cyllid os gallant ddangos eu bod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion cyflawni a chymhwyso 30

Mae trefniadau clir ar waith ar gyfer monitro ac adrodd ar y cynnydd gyda'r rhaglen gyffredinol 31

3 Nid yw'n glir eto beth ddaw yn lle'r cronfeydd strwythurol ar ôl Brexit ond mae WEFO a Llywodraeth Cymru yn ceisio siapio'r trafodaethau 32

Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno Cronfa Ffyniant Gyffredin ond nid yw eto wedi datgan manylion allweddol ynglŷn â gwerth y gronfa na sut bydd yn gweithredu 33

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei gweledigaeth ar gyfer dyfodol buddsoddi rhanbarthol ac mae eisiau i'r rheolaeth lawn drosto a'r cyllid gael eu datganoli 33

Atodiadau

Atodiad 1 – Dulliau Archwilio 37

Atodiad 2 – Blaenoriaethau Cronfeydd Strwythurol yr UE a'r canlyniadau a'r allbynnau arfaethedig 38

Atodiad 3 – Newidiadau arfaethedig WEFO i'r rhaglen 40

Atodiad 4 – Goruchwylio a monitro rhaglenni 41

Adroddiad cryno

Crynodeb

1 Ers 2000, mae Cymru wedi bod yn gymwys i gael £10.2 biliwn o Gronfeydd Strwythurol yr UE, sy'n ddwy o nifer o raglenni nawdd UE sydd ar gael i Gymru. Mae'r cylch cyfredol o Gronfeydd Strwythurol yr UE yn rhan o raglen 2014-2020, er bod rheolau'r UE yn golygu y byddai gan Gymru mewn gwirionedd hyd at 2023 i ymrwymo[1], gwario a hawlio'r cyllid[2].

2 Mae Cymru yn gymwys i gael oddeutu £2.1 biliwn o gyllid Ewropeaidd dan y cylch cyfredol. Ceir £1.1 biliwn yn ychwanegol mewn 'arian cyfatebol' gan y sector preifat, y sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus[3]. Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) sy'n gyfrifol am gyflenwi'r rhaglen fel yr 'Awdurdod Rheoli'[4].

3 Mae rhaglen Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020 yn cael ei rhannu'n bedair Rhaglen Weithredol. Ceir dwy gronfa: Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a Chronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF). Mae oddeutu £1.2 biliwn o'r ERDF wedi'i neilltuo ar gyfer ymchwil a datblygu, ar gyfer prosiectau seilwaith, megis gwella ffyrdd, ar gyfer ynni adnewyddadwy ac arbed ynni, ac ar gyfer helpu busnesau bach. Neilltuir oddeutu £860 miliwn o'r ESF i helpu i ddatblygu sgiliau ieuenctid ac oedolion sydd mewn gwaith ac sy'n chwilio am waith. Caiff y cyllid ei rannu rhwng Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, sy'n cael y rhan fwyaf o'r cyllid oherwydd lefelau is o allbwn economaidd, a Dwyrain Cymru (Ffigur 1 ac Atodiad 2). Bwriedir i'r cyllid ddarparu manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol eang. Mae'r canlyniadau ac allbynnau arfaethedig dan bob un o'r blaenoriaethau cyllido i'w gweld yn Atodiad 2.

1 Ar gyfer yr adroddiad hwn, rydym yn golygu bod y cyllid wedi'i ymrwymo i brosiect penodol ar ôl i WEFO ei gymeradwyo ac ar ôl i noddwr y prosiect dderbyn y llythyr cynnig grant.

2 Mae'r UE yn gosod targedau gwariant sy'n dechrau dair blynedd ar ôl cytuno ar y Rhaglenni Gweithredol (gelwir y fframwaith yn N+3). Mae'r targedau N+3 yn rhai sy'n cronni ac maent yn cynyddu bob blwyddyn i 100% o'r cyllid y mae'n rhaid ei wario erbyn 2023.

3 Gall arian cyfatebol fod ar ffurf arian ac amser, er enghraifft, gellir defnyddio gwerth cyfraniadau gwirfoddolwyr i gyfateb i gyfraniadau nawdd yr UE.

4 Mae WEFO yn rhan o Lywodraeth Cymru ac yn gyfrifol am gyd-reoli Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru, mewn partneriaeth â'r Comisiwn Ewropeaidd. Fel yr 'Awdurdod Rheoli' mae WEFO yn gyfrifol am reoli a gweithredu'r rhaglen yn effeithlon.

Ffigur 1: ffeithiau allweddol am Raglen Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-2020



		Grant UE (£m)	Arian cyfatebol (£m)	Cyfanswm (£m)
Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	ESF	687.7	236.4	924.1
	ERDF	1,030.9	533.1	1,564.0
Dwyrain Cymru	ESF	173.8	179.1	352.9
	ERDF	173.8	173.7	347.5

Mae'r ffigurau'n seiliedig ar gyfradd gyfnewid o £1:€1.17

Ffynhonnell: data WEFO

4 Ar 23 Mehefin 2016, pleidleisiodd y DU mewn refferendwm i adael yr Undeb Ewropeaidd. Ym Mawrth 2017, cyflwynodd Llywodraeth y DU hysbysiad o'i bwriad i adael yr UE. Yn unol â'r amserlen dwy flynedd sy'n cael ei gosod dan gyfraith yr UE, bydd y DU yn gadael yr UE am 11 o'r gloch gyda'r hwyr ar 29 Mawrth 2019.

5 Mae effaith 'Brexit' ar Gronfeydd Strwythurol yr UE yn dibynnu ar a yw'r DU yn gadael yr UE gyda 'chytundeb'. Mae cyfraith yr UE yn caniatáu i'r DU gytuno ar 'Gytundeb Ymadael' sy'n datgan telerau ymadawiad y DU[5]. Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd y DU a'r UE Gytundeb Ymadael drafft[6]. Roedd y Cytundeb Ymadael drafft yn disgrifio amrywiol feysydd lle mae'r DU a'r UE yn cytuno, yn ogystal â rhai meysydd allweddol lle maent yn anghytuno. Ymysg y meysydd lle maent yn cytuno y mae y bydd y DU yn parhau i gyfranogi yn rhaglen Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-2020 nes daw i ben.

6 Fodd bynnag, maent yn anghytuno ar rai meysydd allweddol, gan gynnwys y ffin rhwng Gweriniaeth Iwerddon a'r DU a rôl Llys Cyfiawnder Ewrop. Mae'n bosibl, os na chytunant ar y meysydd hyn, y bydd y DU yn gadael yr UE heb Gytundeb Ymadael. Mewn senario o'r fath, byddai Cymru yn dibynnu ar sicrhad gan Lywodraeth y DU. Tan yn ddiweddar, roedd WEFO wedi bod yn gweithio yn unol â sicrhad a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2016[7], i ddarparu arian yn lle cyllid yr UE i brosiectau 'yr ymrwymwyd iddynt cyn i'r DU adael yr UE'. Ar 24 Gorffennaf 2018, ychydig cyn i ni gwblhau fersiwn derfynol yr adroddiad hwn, estynnodd Llywodraeth y DU y sicrhad i gwmpasu dyraniad Cymru (a gweddil y DU) ar gyfer Cronfeydd Strwythurol o dan gyfnod cyllideb hwn yr UE tan 2020. Mae Ffigur 2 yn darlunio ar lefel uchel y ddau senario allweddol – 'cytundeb' a 'dim cytundeb'.

5 Erthygl 50 o Gytuniad Sefydlu'r Undeb Ewropeaidd yw'r adran o gyfraith yr UE sy'n delio â sut mae aelod-wladwriaethau'n gadael yr UE.

6 Llywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd, **Cytundeb Drafft ar ymadawiad Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon â'r Undeb Ewropeaidd a'r Gymuned Ynni Atomig Ewropeaidd**, Mawrth 2018.

7 Ym mis Awst 2016, cyhoeddodd Llywodraeth y DU sicrhad cychwynnol i'r DU gyfan i ariannu prosiectau yr ymrwymwyd iddynt cyn Datganiad hydref y Canghellor. Daeth cyhoeddiad Hydref 2016 yn dilyn Datganiad yr hydref gan ymestyn y sicrhad i bob prosiect yr ymrwymwyd iddo cyn i'r DU adael yr UE.

Ffigur 2: cytundeb ymadael y DU/UE – y senarios cytundeb a dim cytundeb diweddaraf ar gyfer Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru



7 Mae'r adroddiad hwn yn pwyso a mesur a yw WEFO yn rheoli'n effeithiol y risgiau a'r cyfleoedd i'r Cronfeydd Strwythurol oherwydd Brexit. Mae ein dulliau archwilio i'w gweld yn Atodiad 1. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar lefel uchel ar y prif risgiau. Nid ydym wedi adolygu'n drylwyr y dull o reoli'r rhaglen drwyddi draw. Nid ydym ychwaith wedi adolygu ymateb ehangach Llywodraeth Cymru i'r risgiau a'r cyfleodd a ddaw yn sgil Brexit. Ym mis Ebrill 2014, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad manwl ar Raglen Cronfeydd Strwythurol yr UE 2007-2013 (Blwch 1)[8] a lle bo hynny'n berthnasol rydym wedi defnyddio'r adroddiad hwnnw i gefnogi ein canfyddiadau.

8 Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd 2007-2013, Ebrill 2014.

Blwch 1: adroddiad 2014 yr Archwilydd Cyffredinol ar Gronfeydd Strwythurol 2007-2013
Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i gasgliad positif ynglŷn â'r cynnydd gyda'r rhaglen ac ynglŷn â gwell trefniadau rheoli. Er ei bod yn rhy fuan i fod yn bendant ynglŷn ag effaith gyffredinol y rhaglen, ceid arwyddion positif o'r gwerthusiadau parhaus.[9] Roedd WEFO wedi cymryd camau i roi sylw i'r holl faterion y gwnaethom argymhellion yn eu cylch.

8 Mae'r adroddiad yn cael ei lunio o amgylch y prif risgiau i gyllid Ewropeaidd a'r cyfleoedd yn sgil Brexit. Mae'r prif risgiau a'r cyfleoedd i'w gweld yn Ffigur 3 ynghyd â'n casgliadau o safbwynt sut y mae WEFO yn eu rheoli. Canolbwyntiodd ein gwaith i ddechrau ar gynnydd WEFO yng ngoleuni sicrhad blaenorol Llywodraeth y DU. Mae union effaith cyhoeddiad Llywodraeth y DU ynghylch sicrhad estynedig yn cael ei drafod ac mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyhoeddi canllawiau newydd cyn bo hir. Serch hynny, mae'n amlwg bod y sicrhad estynedig yn lleihau'n sylweddol y risg y bydd Cymru yn colli cyllid mewn sefyllfa dim cytundeb. Mae angen i'n hadroddiad gael ei ystyried yn y cyd-destun hwnnw. Ar adeg drafftio'r adroddiad hwn, nid yw'n glir sut y bydd y cyhoeddiad hwn yn effeithio ar gynlluniau blaenorol WEFO ar gyfer ymrwymo cyllid erbyn mis Mawrth 2019.

Ffigur 3: y prif risgiau a'r cyfleoedd i Gronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru yn sgil Brexit

Risg/cyfle	Casgliad
Prif risg: Bod Cymru yn colli llawer iawn o gyllid.	Er gwaethaf ymdrechion positif WEFO i ymrwymo holl gyllid yr UE cyn Brexit, wynebodd Cymru risg sylweddol o golli rhywfaint o gyllid mewn senario dim cytundeb heb i Lywodraeth y DU ddiwygio telerau ei sicrhau.
Prif risg: Bod WEFO yn gostwng ei safonau er mwyn ymrwymo prosiectau a gwario arian yr UE cyn Brexit.	Mae WEFO wedi cynnal archwiliadau cadarn er ei bwriad i gymeradwyo prosiectau a gwario'r cyllid yn gyflymach cyn Brexit.
Prif gyfle: Defnyddio'r gwersi a ddysgwyd yn sgil blynyddoedd o reoli cronfeydd strwythurol yng Nghymru gydag unrhyw gynllun newydd.	Nid yw dyfodol cyllid rhanbarthol i'r dyfodol ar ôl Brexit yn glir ond mae WEFO a Llywodraeth Cymru yn ceisio siapio'r drafodaeth.

9 Ers hynny mae WEFO wedi cyhoeddi adolygiad o gylch 2007-2013, Gwerthusiad Terfyn Rhaglen 2007-2013 y Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru, Rhagfyr 2017, sy'n disgrifio'n fanwl effeithiau cylch ariannu 2007-2013.

9 O safbwynt y risg bod Cymru yn colli cyllid mewn senario dim cytundeb, o dan y sicrhad blaenorol, byddai'r union swm wedi dibynnu ar i ba raddau roedd WEFO yn gallu ymrwymo'r holl gyllid erbyn mis Mawrth 2019. Byddai hefyd wedi dibynnu ar i ba raddau y bydd prosiectau yn ddiweddarach yn mynd yn eu blaenau yn ôl y bwriad ac yn gwario'r holl gyllid a ddyrannwyd. Am bob 1% o'r holl arian sydd ar gael nad yw WEFO yn ei ymrwymo neu sy'n cael ei danwario, byddai Cymru wedi colli oddeutu £21 miliwn.

10 Ac ystyried ein casgliadau cyffredinol positif drwyddynt draw a natur lefel uchel ein hadolygiad, nid ydym yn gwneud dim argymhellion ffurfiol penodol. Fodd bynnag, mae rhai materion allweddol i WEFO a Llywodraeth Cymru eu rheoli hyd yn oed gyda'r estyniad i'r sicrhad:

a Cadw golwg ar newidiadau economaidd ehangach, gan gynnwys o safbwynt Brexit, ac addasu'r rhaglen lle bo angen mewn ymateb

b Cynyddu'r cyfraddau ymrwymiad, gweithio gyda noddwyr prosiectau posibl i roi sylw i bryderon, gan gynnwys a fydd arian cyfatebol ar gael

c Cynyddu'r gyfradd wario drwy annog prosiect i gyflwyno'u hawliadau am gyllid UE yn ddi-oed

ch Gweithio gyda noddwyr prosiectau fel bod llai o brosiectau'n tanwario gan arwain at golli cyllid i Gymru

d Recriwtio a chadw staff ar adeg lle ceir cryn ansicrwydd ynglŷn â rhai o'r rolau yn WEFO a llwyth gwaith cynyddol posibl oherwydd y bydd angen asesu prosiectau'n gyflymach

dd Cynnal archwiliadau trylwyr

e Sicrhau, yn ystod y cyfnod pontio i unrhyw gynllun yn lle'r cronfeydd strwythurol, fod arbenigedd WEFO i oruchwylio a gwerthuso prosiectau'n drylwyr yn cael ei gadw naill ai yn y rhaglen newydd neu yng ngwasanaeth cyhoeddus Cymru yn ehangach

Rhan 1

Er gwaethaf ymdrechion positif WEFO i ymrwymo holl gyllid yr UE cyn Brexit, wynebodd Cymru risg sylweddol o golli rhywfaint o gyllid mewn senario dim cytundeb, heb i Lywodraeth y DU ddiwygio telerau ei sicrhad

1.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn edrych ar sut mae WEFO wedi bod yn rheoli'r risg bod Cymru yn colli arian UE o ganlyniad i Brexit. Yn benodol, mae'n edrych ar y senarios cytundeb a dim cytundeb ar gyfer Brexit. Yn y senario dim cytundeb, rydym yn edrych ar y risgiau sy'n gysylltiedig â sicrhad blaenorol Llywodraeth y DU i ariannu prosiectau yr ymrwymwyd iddynt cyn Brexit (29 Mawrth 2019). Yna rydym yn ystyried canlyniadau cyhoeddiad Llywodraeth y DU ar 24 Gorffennaf 2018 yn ymestyn y sicrhad i gwmpasu dyraniad Cymru ar gyfer Cronfeydd Strwythurol o dan gyfnod cyllideb hwn yr UE tan 2020. Yn y senario cytundeb rydym yn ystyried effaith y Cytundeb Ymadael drafft ac unrhyw risgiau gweddilliol i gyllid yr UE yn y senario hwnnw.

Mae WEFO yn gwneud cynnydd i ymrwymo cyllid ond cydnabu ei bod yn nod anodd iawn ymrwymo holl gyllid yr UE yn yr amserlen fyrrach hyd at fis Mawrth 2019

1.2 Dan reolau'r UE, mae gan WEFO tan ddiwedd Rhagfyr 2023 i ymrwymo a gwario'r cyfan o'r £2.1 biliwn o gyllid yr UE[10]. Yn ymarferol, ac ystyried yr amser a gymerir i gymeradwyo a chyflenwi prosiectau, i ddechrau nod WEFO oedd ymrwymo'r holl gyllid erbyn Rhagfyr 2020. Byddai hyn wedi rhoi i WEFO y tair blynedd rhwng 2020 a 2023 i ganolbwyntio ar sicrhau bod yr holl arian a ymrwymwyd wedi'i wario. Er hynny, yn dilyn sicrhad Llywodraeth y DU ym mis Hydref 2016, aeth WEFO ati i geisio ymrwymo 100% o'r arian UE erbyn 29 Mawrth 2019[11]. Roedd nod WEFO yn uchelgeisiol iawn. I gyrraedd y nod, roedd gan WEFO dair blynedd a naw mis yn llai i ymrwymo'r holl gyllid nag a oedd ganddi yn y cylchoedd blaenorol. Yng nghylch 2007-2013, roedd WEFO wedi ymrwymo 86% o'r cyllid ar yr un adeg yn y rhaglen. I lynu wrth y dyddiad ym mis Mawrth 2019, byddai WEFO wedi gorfod ymrwymo cyllid yn llawer iawn cynt nag yn y gorffennol.

1.3 Cafodd WEFO ddechrau da. Hyd yn oed cyn i'r UE gyflwyno ei arweiniad, gweithiodd WEFO gyda'r rhanddeiliaid i sefydlu ei blaenoriaethau, a oedd yn y diwedd yn debyg iawn i'r rheini yn y cylch blaenorol. O ganlyniad i'r gwaith cynnar hwn, Cymru oedd y rhan gyntaf o'r DU i gael cymeradwyaeth i'w rhaglenni gan y Comisiwn Ewropeaidd. Fodd bynnag, bu'r cynnydd yn ymrwymo cyllid ychydig yn arafach na'r cylch blaenorol. Erbyn hanner ffordd drwy fis Mehefin 2018, roedd WEFO wedi ymrwymo 74% o holl grant yr UE (£1.6 biliwn allan o £2.1 biliwn). Roedd hwn yn is na'r lefel ymrwymo o 81% a gyflawnodd WEFO ar bwynt sy'n fras gyfatebol yn y cylch blaenorol.

10 Mae gan WEFO hefyd rhyw gymaint o hyblygrwydd i wneud diwygiadau ar ôl 2020, er enghraifft, i ymateb i newidiadau yn y gyfradd gyfnewid neu symud cyllid rhwng prosiectau i ddelio â thanwariant.

11 Yn wahanol i gylchoedd blaenorol, ni wnaeth yr UE osod targedau ymrwymiad ac ni wnaeth WEFO osod ei thargedau ymrwymo mewnol ei hun ar y dechrau.

1.4 Mae Ffigur 4 yn dangos y wynebodd WEFO gryn her i ymrwymo cyllid ERDF, er bod y broses o ymrwymo ERDF yn arafach nag ESF dan y cylch blaenorol hefyd. Mae WEFO wedi tynnu sylw at nifer o ffactorau sydd wedi ei gwneud yn anodd ymrwymo cyllid hyd yma (Blwch 2).

Ffigur 4: sefyllfa rhaglen Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-2020 ar 18 Mehefin 2018



Ffynhonnell: data WEFO

Blwch 2: ffactorau sy'n effeithio ar allu WEFO i ymrwymo cyllid hyd yma
Ansicrwydd ynglŷn â Brexit Dywed WEFO fod rhai noddwyr heb gyflwyno prosiectau gan nad oeddent yn sicr a fyddai'r cyllid ar gael pe byddai eu prosiect yn rhedeg y tu hwnt i'r adeg pan fydd y DU yn gadael yr UE.
Dechrau'r rhaglen Er bod WEFO wedi gweithredu o flaen llawer o Awdurdodau Rheoli i gael cymeradwyaeth i'r rhaglen, roedd ffactorau sydd i raddau helaeth y tu allan i reolaeth WEFO yn golygu bod y gymeradwyaeth oddeutu pedwar mis yn ddiweddarach na'r rhaglen flaenorol ar gyfer 2007-2013. Roedd y materion hynny'n cynnwys cytuno'n hwyr ar gyllidebau a rheoliadau'r UE ac oedi o safbwynt yr angen i gael dogfennau strategol DU gyfan ar waith.
Anwadalwch y gyfradd gyfnewid Caiff uchafswm y cyllid sydd ar gael i Gymru ei bennu mewn Ewros ar ddechrau cyfnod y rhaglen. Mae'r gwymp yng ngwerth y bunt yn gynharach yn y rhaglen yn golygu bod gwerth disgwyliedig cyllid yr UE mewn punnoedd yn awr £132 miliwn yn uwch nag a gredid i ddechrau. O'r herwydd, mae gan WEFO ar hyn o bryd fwy o grant ar gael i'w ymrwymo nag a ddisgwyliwyd i ddechrau.
Cynnydd yng ngwerth y cyllid ar gyfer Dwyrain Cymru Mae newidiadau yn y ffordd y gweithredir y rhaglen ar lefel y DU yn golygu y ceir tair gwaith yn fwy o gyllid ar gyfer Dwyrain Cymru nag yn y rhaglen flaenorol. Mae WEFO eisoes wedi ymrwymo mwy o grant i Ddwyrain Cymru nag o dan y cylch 2007-13 cyfan ond bod y lefelau ymrwymo yn is nag o'r blaen gan fod ganddi fwy o gyllid i'w ymrwymo.
Newidiadau yn yr amgylchedd economaidd Dywed WEFO bod y cyfraddau diweithdra isel yn golygu y ceir llai o alw am brosiectau i gynyddu cyflogaeth. Dywed hefyd fod buddsoddiadau blaenorol mewn prosiectau i roi hwb i sgiliau yn golygu y ceir llai o bobl heb sgiliau neu ag ychydig iawn o sgiliau. Mae WEFO yn gweithio gyda noddwyr prosiectau posibl i annog mwy o brosiectau sydd wedi'u hanelu at feithrin sgiliau pobl sydd eisoes mewn gwaith ond ei bod yn cymryd amser i'r rhain gael eu datblygu.

Blwch 2: ffactorau sy'n effeithio ar allu WEFO i ymrwymo cyllid hyd yma

Mwy o ffocws ar ganlyniadau

Dywed WEFO bod y rhaglenni wedi cryfhau'r gofynion i brosiectau ddangos yn glir sut byddant yn cyflawni canlyniadau penodol yn unol ag amcanion y rhaglen a'r cyfleoedd economaidd (paragraff 2.2). Er mai nod y dull hwn, yn y pendraw, yw cael manteision tymor hwy, mae noddwyr prosiectau yn cymryd amser i addasu a chyflwyno cynigion digon clir.

1.5 Roedd WEFO yn dal yn bwriadu ymrwymo'r holl gyllid erbyn Mawrth 2019. Mae ganddi brosiectau ar gamau amrywiol o'r broses gymeradwyo ffurfiol, a fyddai'n golygu ymrwymo 100% o'r ERDF a 90% o'r ESF os cânt i gyd eu cymeradwyo. Dengys Ffigur 5 bod gan WEFO, ganol Mehefin, brosiectau gwerth £77 miliwn yn y cam cyn gwneud penderfyniad mwy ansicr, tra bo £377 miliwn yn y cyfnod cynllunio busnes mwy datblygedig[12]. Mae rhai o'r prosiectau sydd yn yr arfaeth yn golygu adnewyddu prosiectau sy'n bodoli eisoes, megis cynlluniau dysgu seiliedig ar waith[13].

12 Mae paragraffau 2.3 i 2.4 a Ffigur 8 yn disgrifio'r camau cymeradwyo yn fwy manwl.

13 Yn dilyn argymhelliad gan Lys Archwilwyr Ewrop, penderfynodd WEFO lunio contractau ar gyfer rhai prosiectau am dair i bedair blynedd yn hytrach nag am saith mlynedd lawn y rhaglen.

Ffigur 5: cyllid sydd wedi'i ymrwymo gan WEFO a phrosiectau yn yr arfaeth ganol Mehefin 2018



Ffynhonnell: data WEFO

1.6 I gau'r bwlch yn y rhaglen ESF, mae WEFO wedi dechrau trafod gyda noddwyr prosiectau sy'n bodoli eisoes i'w hehangu a datblygu prosiectau newydd. Nid yw'r trafodaethau hyn wedi cyrraedd y cam cyn cynllunio ffurfiol. Pe byddai'r holl drafodaethau cynnar hyn yn arwain at fod y prosiectau'n bwrw ymlaen ac yn cael eu cymeradwyo, gallai WEFO ymrwymo hyd at £80 miliwn a byddai'r bwlch sy'n weddill yn cael ei lenwi'n llwyr.

1.7 Mae WEFO eisiau diwygio'r rhaglen i'w helpu i gynyddu'r lefelau ymrwymiad. Mae WEFO yn cynnig symud oddeutu £64.1 miliwn rhwng y blaenoriaethau presennol a chreu blaenoriaeth newydd o amgylch diwygio gwasanaethau cyhoeddus a gweithio'n rhanbarthol (Ffigur 6 ac Atodiad 3). Cred WEFO y bydd y newidiadau hyn yn ei helpu i ddenu rhagor o brosiectau ac ymrwymo rhagor o gyllid. Mae'n arferol i WEFO wneud newidiadau yn y rhaglen fel y gwnaeth mewn cylchoedd ariannu blaenorol. Anfonodd WEFO ei chynigion i'r Comisiwn Ewropeaidd ym mis Mehefin 2018. Mae'n gobeithio am gymeradwyaeth ym mis Rhagfyr 2018. Mae WEFO yn gweithio gyda noddwyr prosiectau posibl i lunio prosiectau newydd a fydd yn barod i'w cymeradwyo os yw'r Comisiwn Ewropeaidd yn cymeradwyo'r newidiadau. Mae'r prosiectau posibl ar gyfer yr ERDF wedi'u cynnwys yn y ffigur 'cyn cynllunio' yn Ffigur 5. Nid yw'r prosiectau posibl ar gyfer y rhaglen ESF wedi datblygu i'r un graddau ac nid ydynt eto wedi'u cynnwys yn llawn yng nghyfrifiadau WEFO.

Ffigur 6: crynodeb o ddiwygiadau arfaethedig WEFO i Raglenni Gweithredol y Cronfeydd Strwythurol

CRONFA GYMDEITHASOL EWROP

Mae WEFO yn cynnig cymryd £14.3 miliwn allan o'r flaenoriaeth i Drechu tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy a £12.3 miliwn arall allan o'r flaenoriaeth sgiliau ar gyfer twf a rhoi £21.7 miliwn ohono mewn blaenoriaeth newydd o'r enw Diwygio Gwasanaethau Cyhoeddus a Gweithio'n Rhanbarthol. Mae'r £4.9 miliwn sy'n weddill yn cael ei roi i mewn i'r flaenoriaeth sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth a chyrhaeddiad pobl ifanc.



CRONFA DATBLYGU RHANBARTHOL EWROP

Mae WEFO yn cynnig symud £14.9 miliwn o'r flaenoriaeth sy'n canolbwyntio ar ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni a symud £10.0 miliwn ohono i'r flaenoriaeth sy'n canolbwyntio ar ymchwil ac arloesi a £4.9 miliwn pellach i'r flaenoriaeth sy'n canolbwyntio ar gystadleurwydd BBaCh. Mae WEFO yn cynnig bod £17.0 miliwn arall yn cael ei symud rhwng 'Amcanion Thematig' yn y flaenoriaeth Cystadleurwydd BBaCh.

Mae'r ffigurau'n seiliedig ar gyfradd gyfnewid o £1:€1.17 a allai newid

Ffynhonnell: WEFO

1.8 Er nad yw WEFO ond wedi ymrwymo 74% o'r cyllid Ewropeaidd ym mis Mehefin 2018, mae wedi ymrwymo cyllid gwerth 92% o gyfanswm gwerth y rhaglen, gan roi ystyriaeth i arian cyfatebol. Mae'r sefyllfa hon wedi digwydd gan fod gan y prosiectau y mae WEFO wedi'u cymeradwyo gyfran uwch o arian cyfatebol na'r hyn sy'n ofynnol dan reolau'r UE[14]. Mae WEFO yn ymrwymo cyllid i brosiectau ar sail angen. Mae hynny'n golygu bod cyllid yr UE yn cael ei bennu ar y lleiafswm sy'n ofynnol i lenwi'r bwlch rhwng cyfanswm cost y prosiect a'r arian cyfatebol y gall noddwr prosiect ei ddarparu. Mae WEFO wedi dewis peidio ag ymrwymo cyllid EU i brosiectau ar yr uchafswm am amrywiol resymau. Ymysg y rhesymau hyn y mae sicrhau y gall arian yr UE gael ei daenu ar draws nifer fwy o brosiectau. Hefyd, mae cyfradd uwch o arian cyfatebol yn caniatáu rhyw gymaint o hyblygrwydd i reoli risgiau o safbwynt newidiadau yn y gyfradd gyfnewid a chymhwysedd gwariant.

1.9 Mae'r rhy fuan barnu effaith debygol y cyllid ac a gaiff y disgwyliadau neu'r targedau gwreiddiol eu cyrraedd drwyddynt draw. Mae WEFO yn mesur ac yn cyflwyno adroddiadau ar y cynnydd a wneir yn erbyn ystod eang o fesurau manwl. Mae Ffigur 7 yn dangos y mesurau perfformiad allweddol y mae WEFO yn adrodd eu bod wedi'u cyflawni erbyn diwedd Mawrth 2018.

14 Ar gyfer y pedair Rhaglen Weithredol, ceir 'cyfradd ymyrraeth' y cytunwyd arni. Mae hon yn datgan pa gyfran o'r Rhaglen Weithredol fydd yn gyllid o gronfeydd yr UE a pha gyfran sy'n gorfod dod o arian cyfatebol domestig. Gall WEFO osod cyfraddau ymyrraeth unigol ar gyfer pob prosiect ond rhaid i'r rhain gydbwyso er mwyn sicrhau bod pob Rhaglen Weithredol yn aros o fewn y cyfraddau y cytunwyd arnynt.

Ffigur 7: dangosyddion allweddol WEFO ar gyfer rhaglen y Cronfeydd Strwythurol ar 14 Gorffennaf 2018

	Cynnydd	Targed
Mentrau a gynorthwywyd	4,903	45,512
Mentrau a grëwyd	830	7,400
Cynnydd mewn cyflogaeth yn y mentrau a gynorthwywyd	6,065	26,980
Faint o gyllid ymchwil a sicrhawyd	£48 miliwn	£230 miliwn
Cynnydd yn lefel yr allforion	£48 miliwn	£233 miliwn
Capasiti ychwanegol cynhyrchiant ynni adnewyddadwy*	0	28
Nifer yr aelwydydd gyda gwell dosbarthiad defnydd ynni*	0	9,700
Gwasanaethau cludiant cyhoeddus a grëwyd neu a wellhawyd*	0	2,900,000 cerbyd km
Pobl a gynorthwywyd	143,435	434,100
Pobl ifanc a gynorthwywyd	39,637	150,000
Pobl a gynorthwywyd i gyflogaeth	9,651	40,642
Pobl sy'n ennill cymwysterau	42,875	194,633

Sylwer: * Fel rhan o'r newidiadau arfaethedig i'r rhaglen (paragraff 1.7) mae WEFO yn bwriadu dileu'r tri dangosydd hyn. Nid yw WEFO wedi gwneud cynnydd tuag at y targedau gan nad ydyw wedi cymeradwyo dim prosiectau a fyddai'n cyfrannu'n uniongyrchol at y mesurau hyn.

Ffynhonnell: data WEFO

Roedd risg sylweddol y byddai Cymru yn colli cyllid dan senario dim cytundeb hyd nes i Lywodraeth y DU ymestyn ei sicrhad yn ddiweddar iawn

Roedd risg sylweddol y byddai Cymru yn colli cyllid dan delerau sicrhad blaenorol Llywodraeth y DU os na cheir Cytundeb Ymadael ym mis Mawrth 2019

1.10 Os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb ym mis Mawrth 2019, daw cyllid yr UE i Gymru i ben ar unwaith. Roedd sicrhad Llywodraeth y DU wedi dweud y byddai'n darparu cyllid yn lle hwn ar gyfer 'yr holl brosiectau buddsoddi a strwythurol' yr ymrwymwyd iddynt cyn i'r DU adael yr UE'. Fel y drafftiwyd yn flaenorol, nid yw'r sicrhad ond yn cynnwys cyllid ar gyfer prosiectau sydd wedi'u cymeradwyo erbyn 29 Mawrth 2019.

1.11 Mae gan WEFO brosiectau sy'n mynd rhagddynt i helpu i symud tuag at y targed ymrwymo 100% erbyn Mawrth 2019. Er hynny, mae perygl na fydd rhai prosiectau yn ei gwneud hi drwy'r broses ymgeisio a gall rhai gael eu oedi y tu hwnt i fis Mawrth 2019. Mae rhai prosiectau'n gymhleth ac yn dibynnu ar sefydliadau eraill am arian cyfatebol nad yw wedi'i sicrhau eto. Mae rhai prosiect mawr yn yr arfaeth, sef prosiectau ynni adnewyddadwy a chludiant. Pe byddai nifer fechan o'r rheini'n syrthio drwodd neu'n methu'r dyddiad cau ym mis Mawrth, ceid bwlch sylweddol. Rhaid cofio mai mewn cam trafod a datblygu cynnar iawn y mae llawer o'r prosiectau.

1.12 Mae WEFO wedi bod yn effro i'r perygl y bydd prosiectau'n syrthio drwodd ac mae ganddi rai prosiectau o gynlluniau sydd â nifer ormodol o geisiadau y mae'n gofyn i noddwyr prosiectau eu cadw dan ystyriaeth. Mae gwerth y prosiectau wrth gefn hyn yn oddeutu £47 miliwn. Fodd bynnag, wrth i amser fynd yn ei flaen, byddai'n mynd yn fwyfwy anodd i WEFO allu cael y prosiectau wrth gefn drwy'r prosesau cymeradwyo cyn Brexit.

1.13 Oherwydd ei bod yn debygol na fydd rhai prosiectau yn ei gwneud hi drwodd i gymeradwyaeth lawn a'r anhawster cynyddol i gael prosiectau yn eu lle wrth i ddyddiad Brexit nesáu, credwn yr oedd risg sylweddol na fyddai WEFO yn ymrwymo 100% o'r cyllid cyn mis Mawrth 2019. Am bob 1% o'r cyllid na fyddai WEFO yn ei ymrwymo, byddai Cymru wedi colli oddeutu £21 miliwn.

1.14 Gallai Cymru fod wedi colli hefyd oherwydd diffyg hyblygrwydd i symud arian rhwng prosiectau ar ôl Brexit. Mewn rhaglen o'r maint hwn, mae'n anochel y bydd rhai prosiectau'n gwario llai na'r bwriad. Yn y gorffennol, mae WEFO wedi bod yn gallu ailgyfeirio tanwariant i brosiectau eraill. Fodd bynnag, nid oedd yn glir a fyddai sicrhad Llywodraeth y DU, a oedd yn ymwneud yn benodol â phrosiectau sydd wedi'u cymeradwyo, yn caniatáu'r hyblygrwydd i symud cyllid rhwng prosiectau. Amcangyfrifwn fod y tanwariant yn y cylch blaenorol yn oddeutu 6% o gyfanswm gwerth y cyllid.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymestyn y sicrhad yn ddiweddar, gyda'r telerau newydd yn lleihau'n sylweddol y risg y bydd Cymru yn colli cyllid mewn senario dim cytundeb

1.15 Ar 24 Gorffennaf 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod yn ymestyn ei sicrhad o gyllid yr UE i gwmpasu dyraniad Cymru (a gweddil y DU) ar gyfer Cronfeydd Strwythurol o dan gyfnod cyllideb hwn yr UE tan 2020. Fel y'i drafftiwyd, mae'r estyniad hwn o'r sicrhad yn lleihau'n sylweddol y risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio ag ymrwymo cyllid a thanwario mewn senario dim cytundeb. Fodd bynnag, daw'r union effaith yn gliriach wrth i Lywodraeth y DU nodi rhagor o fanyliol ar sut y bydd y sicrhad yn gweithio yn ymarferol.

1.16 Roedd WEFO, a hefyd rannau eraill o'r DU, wedi ceisio deall dehongliad Llywodraeth y DU o'r sicrhad blaenorol. Ym Mlwch 3 fe welwch y meysydd lle roedd WEFO wedi gofyn am ragor o fanylion. Mae rhai o'r materion hyn yn parhau'n berthnasol hyd yn oed gyda'r sicrhad estynedig. Roedd Llywodraeth y DU wedi llunio canllawiau drafft ar y sicrhad blaenorol a oedd yn cael ei drafod gyda'r llywodraethau datganoledig a rhanddeiliaid eraill. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu paratoi canllawiau wedi'u diweddaru ar y sicrhad estynedig yn y dyfodol agos, a deallwn y bydd y rhain yn mynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd gan WEFO. Yn y pen draw, penderfyniad Llywodraeth y DU yw cwmpas y sicrhad.

Blwch 3: meysydd allweddol lle roedd WEFO wedi ceisio eglurhad ynglŷn â sicrhad blaenorol Llywodraeth y DU
Hyblygrwydd i amrywio prosiectau A fydd Llywodraeth y DU yn caniatáu amrywiadau i brosiectau y cytunwyd arnynt ac yr ymrwymwyd iddynt ar 29 Mawrth 2019 ac yn dal i ystyried bod ymrwymiadau a amrywiwyd yn cael eu cynnwys dan y sicrhad hwn?
Effaith ar gyllid arall A all Llywodraeth y DU gadarnhau na fydd y sicrhad yn effeithio ar unrhyw gyllid arall sydd wedi'i glustnodi ar gyfer Cymru?
Gwerth cyffredinol y sicrhad Sut a phryd y bydd Llywodraeth y DU yn pennu a oes gwerth Sterling i'r terfyn uchaf ar ei sicrhad?
Rheoliadau Pa reoliadau UE sy'n bodoli eisoes y mae Llywodraeth y DU yn bwriadu eu cadw a pha broses archwilio ac arolygu a fydd yn ofynnol ar ôl Brexit?
Torbwynt A fydd Llywodraeth y DU yn talu unrhyw symiau sydd yn y system pan fydd Brexit yn digwydd?
Cymorth technegol A fydd Llywodraeth y DU yn parhau i ariannu staff WEFO a chostau hyfforddiant, cynghori a chefnogi eraill dan y sicrhad?

1.17 Er bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y risgiau i Gymru, ceir risg ehangach i sefyllfa ariannu'r DU mewn senario dim cytundeb. Mewn senario dim cytundeb, byddai Llywodraeth y DU yn talu'r bwlch yn y cyllid ar gyfer prosiectau a arwyddwyd. Mae maint y bwlch hwnnw yn dibynnu'n rhannol ar faint o gyllid UE y mae Cymru (a rhannau eraill o'r DU) yn gallu ei hawlio gan yr UE cyn Brexit. Er mwyn hawlio arian gan yr UE, rhaid i brosiectau i ddechrau wario'r arian, yna gyflwyno hawliad i WEFO. Mae WEFO wedyn yn cyflwyno hawliadau i'r Undeb Ewropeaidd i hawlio'r cyllid.

1.18 Mae WEFO wedi annog noddwyr prosiectau i gyflwyno hawliadau'n ddi-oed er mwyn hawlio cyllid yr UE. Mae cynlluniau WEFO ar gyfer hawlio yn cael eu symbylu'n bennaf gan dargedau gwariant blynyddol yr UE. Hyd at ddiwedd 2017, mae WEFO wedi mynd dros y targedau gwariant yn aruthrol. Mae WEFO eisoes wedi mynd dros dargedau 2018 mewn tair allan o'r pedair rhaglen weithredol[15].

1.19 Er ei bod yn cyrraedd ei thargedau, mae WEFO yn cydnabod nad yw noddwyr prosiectau yn cyflwyno hawliadau mor brydlon ag y gallent. Mae WEFO yn priodoli sawl ffactor i hyn:

- Mae rhai noddwyr prosiectau yn cymryd amser ychwanegol i archwilio eu hawliadau a dilysu eu holl waith papur gwariant a chymhwyso cyn cyflwyno hawliadau.
- Er bod WEFO yn annog hynny, mae'n well gan rai rhannau o Lywodraeth Cymru ddefnyddio'u cyllid domestig ymlaen llaw ac yna hawlio cyllid yr UE yn ddiweddarach.
- Mae gan un rhan o Lywodraeth Cymru hawliad mawr yn yr arfaeth am weithgaredd dysgu seiliedig ar waith, sydd ar ei hôl hi gan eu bod yn ceisio datrys problemau gyda'r systemau cyfrifiadurol sy'n dilysu a yw'r gwariant yn gymwys.

15 Nid yw rhaglen Gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi cyrraedd y targedau ar gyfer 2018 eto, ond mae ganddi tan fis Rhagfyr 2018 i wneud hynny. Mae WEFO yn disgwyl y caiff rhai o'r targedau ariannol ar gyfer y rhaglen weithredol hon eu hail-osod os bydd yr UE yn cymeradwyo newidiadau arfaethedig i'r rhaglen.

Os ceir Cytundeb Ymadael, bydd cyllid strwythurol yr UE yn parhau'n ddinewid i raddau helaeth felly risg gyfyngedig a geir y bydd Cymru yn colli arian sylweddol

1.20 Os bydd y DU a'r UE yn cytuno ar y Cytundeb Ymadael drafft, ni fydd angen sicrhad Llywodraeth y DU. Dan delerau'r Cytundeb Ymadael drafft, bydd Cymru yn dal i allu cyfranogi yn rhaglen 2014-2020 tra pery. Bydd gan WEFO hyd at fis Rhagfyr 2023 i ymrwymo'r holl gyllid a chyflwyno hawliadau am gyllid. Er bod WEFO ar ôl lle'r oedd yn y cylch blaenorol, mae'n hyderus y bydd yn ymrwymo'r holl gyllid erbyn diwedd y rhaglenni yn 2023.

1.21 Hyd yn oed gyda Chytundeb Ymadael, gallai Cymru golli cyllid os yw prosiectau'n tanwario. Mae WEFO yn rheoli risg tanwario drwy or-ymrwymo. Yn y cylch blaenorol, ymrwymodd WEFO 106% o werth y rhaglen ond mewn gwirionedd fe wariodd 99.98% o'r cyllid. Yn y gorffennol, bu gan WEFO sefyllfa i syrthio'n ôl arni, ac os nad oedd y tanwariant a'r gor-ymrwymiad yn cydbwyso ac y ceid prinder cyllid, fe allai prosiectau gael eu treiglo drosodd i'r cylch nesaf o gyllid UE. Fodd bynnag, oherwydd Brexit, ni fydd Cymru yn cyfranogi yn y cylch cyllid nesaf, felly nid yw hyn yn opsiwn mwyach. Mae'n bosibl y bydd rhaid i WEFO fod yn fwy gofalus ynglŷn â gor-ymrwymo, ac o'r herwydd bydd mwy o risg nad yw'n gallu cydbwyso ac ailddosbarthu'r tanwariant. Am bob 1% o werth y cyllid UE sy'n cael ei danwario, byddai Cymru yn colli oddeutu £21 miliwn.

Rhan 2

Mae WEFO wedi cynnal archwiliadau cadarn er ei bwriad i gymeradwyo prosiectau a gwario'r cyllid yn gyflymach cyn Brexit

2.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn edrych ar y risg bod WEFO yn gostwng ei safonau er mwyn cymeradwyo prosiectau a gwario arian yr UE yn gyflymach cyn Brexit. Mae'n ystyried ar lefel uchel y trefniadau sydd ar waith i:

a sicrhau mai ond prosiectau da a chymwys sy'n cael eu dewis i gael cyllid yr UE;

b sicrhau nad yw prosiectau ond yn defnyddio arian yn unol â rheolau'r UE; ac

c monitro cynnydd gyda'r rhaglen yn gyffredinol.

Mae WEFO wedi cryfhau ei dull o gymeradwyo prosiectau ac nid yw ond yn ymrwymo i'r rheini sy'n bodloni meini prawf caeth ac sy'n cyd-fynd â'i blaenoriaethau strategol

2.2 Cyflwynodd WEFO ddull newydd i helpu i ddewis a blaenoriaethu prosiectau yn rhaglen 2014-2020. Canfu ein hadroddiad ym mis Ebrill 2014 ar raglen 2007-2013 fod gan WEFO eisoes system gadarn ar waith ar gyfer dewis prosiectau. Ers hynny mae wedi cryfhau ei dull ymhellach. Fel gyda chylchoedd blaenorol, caiff y Rhaglenni Gweithredol eu gyrru gan eu blaenoriaethau a'r amcanion sy'n sylfaen iddynt. Yn dilyn adolygiad yn 2013 gan Dr Grahame Guilford, cyflwynodd WEFO Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd trawsbynciol[16]. Mae'r fframwaith yn datgan saith o gyfleoedd thematig ar gyfer economi Cymru a thri chyfle rhanbarthol[17]. Nod y fframwaith yw rhoi cynigion ar gyfer prosiectau yng nghyd-destun ymdrechion ehangach i wella economi Cymru.

2.3 Mae dwy ran i ddull WEFO ar gyfer penderfynu a ddylid cymeradwyo prosiectau arfaethedig (Ffigur 8). Mae WEFO i ddechrau yn trafod syniad gyda noddwyr y prosiect cyn gofyn iddynt lenwi 'Tabl Rhesymeg Gweithredu'. Rhaid i'r Tabl ddatgan yn union sut byddai prosiectau arfaethedig yn cyflawni un neu ragor o amcanion y rhaglen a sut byddai hynny'n cael ei fesur. Wrth gwblhau'r Tabl, rhaid i noddwyr prosiectau ddatgan sut byddai eu prosiect yn cyd-fynd â'r cyfleoedd economaidd yn y Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd.

16 Llywodraeth Cymru, **Y Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd – Fersiwn**, Mehefin 2015.

17 Y saith thema yw: ynni; bwyd a ffermio; newid hinsawdd ac effeithlonrwydd adnoddau; datblygu asedau TGCh a'r farchnad ddigidol; gweithgynhyrchu uwch; gwyddorau bywyd ac iechyd; twristiaeth, adloniant a hamdden. Mae'r cyfleoedd rhanbarthol yn datgan y buddsoddiadau mawr y dylai prosiectau gyd-fynd â nhw yn y tri rhanbarth yng Nghymru. Er enghraifft, mae WEFO wedi amlygu'r cyfleoedd yn Ne-orllewin Cymru sy'n gysylltiedig â Bargen Ddinesig Bae Abertawe a chynhyrchiant ynni amgen, gan gynnwys cynllun arfaethedig y lagŵn llanw yn Abertawe.

2.4 Mae'r her a'r gwaith cynnar hwn yn helpu i dynnu allan brosiectau sy'n annhebygol o fodloni'r amcanion a'r meini prawf, er nad yw systemau WEFO yn ein galluogi i weld yn hawdd faint o gynigion a dynnwyd allan fel hyn. Mewn achosion eraill, mae'r her gynnar yn helpu noddwyr prosiectau i wella'u cynigion cyn i WEFO eu hadolygu'n fanwl. Os ânt drwy'r cam hwn, bydd angen i noddwyr prosiectau lunio achos busnes llawn. Ochr yn ochr ag amrywiol feini prawf, mae WEFO yn mynnu bod noddwyr prosiectau yn egluro sut mae eu prosiect yn gefnogol i ddatblygu cynaliadwy[18]. Mae WEFO wedyn yn gwneud amrywiol archwiliadau a gwerthusiadau cyn rhoi'r gymeradwyaeth derfynol.

Ffigur 8: y broses ar gyfer dethol a chymeradwyo prosiectau



Nodyn: * Mae'r grŵp rheoli portffolio yn gyfrifol am sicrhau bod digon o amrywiaeth o ran y gweithrediadau er mwyn cyflawni'r rhaglenni cronfeydd strwythurol i'r eithaf ac i benderfynu pa brosiectau arfaethedig y dylid, ac na ddylid, u gwahodd i'r cyfnod cynllunio busnes.

Ffynhonnell: data WEFO

18 Mae'r pedair rhaglen weithredol a'r Fframwaith Blaenoriaethu Economaidd wedi'u sefydlu cyn cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n datgan amrywiol ddyletswyddau ar gyfer cyrff cyhoeddus a enwir, gan gynnwys mynd ar drywydd datblygu cynaliadwy. Er hynny, mae WEFO yn disgwyl i noddwyr prosiectau ddatgan a monitro eu cyfraniad i ddatblygu cynaliadwy a'r amcanion llesiant cenedlaethol.

2.5 Gwnaeth adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn 2014 ar Gronfeydd Strwythurol yr UE sawl argymhelliad a oedd â'r nod o egluro'r arweiniad i noddwyr, er mwyn esbonio'r gofynion a'r gwahanol gamau. Mae WEFO wedi gwneud cynnydd gyda'r argymhellion hyn ac mae wedi diweddaru ei harweiniad. Mae'n awr yn darparu arweiniad manwl i noddwyr prosiectau arfaethedig fel y gallant ddeall yr archwiliadau a wneir ym mhob cam o'r broses. Nid ydym wedi holi noddwyr prosiectau a yw'r arweiniad wedi'i ddiweddaru wedi helpu i wneud y prosesau'n gliriach.

2.6 Drwyddi draw, credwn fod proses WEFO ar gyfer dethol a chymeradwyo prosiectau yn drylwyr. Gall fod yn broses hir a heriol. Ond mae'n helpu i sicrhau mai ond prosiectau o ansawdd da sy'n cael cyllid. Pe byddai WEFO yn cymeradwyo prosiectau o ansawdd gwael, byddai'n gwneud ei hun yn agored i'r risg o gael cosbau ariannol llym gan yr UE. Mae gwaith y Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (EFAT) annibynnol[19] wedi rhoi hyder inni gan ddangos bod prosesau WEFO ar gyfer dethol a chymeradwyo prosiectau yn gweithredu'n effeithiol.

2.7 Mae dau 'gorff cyfryngol' – Adran Llywodraeth Cymru dros yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru – yn cyflenwi rhan o raglen 2014-2020 ar ran WEFO. Mae'r cyrff cyfryngol hyn yn rhedeg cynlluniau grantiau sy'n cefnogi'r sector preifat a'r sector gwirfoddol. Hyd yma mae gwerth y cynlluniau grant yn £141 miliwn. Canfu adolygiad mwyaf diweddar EFAT fod dull y cyrff cyfryngu o ddethol a chymeradwyo prosiectau'n gweithredu'n effeithiol.

19 Mae Atodiad 1 yn esbonio rôl a Gwaith EFAT.

Mae gan WEFO archwiliadau manwl i sicrhau na all prosiectau ond hawlio cyllid os gallant ddangos eu bod wedi cydymffurfio â'r holl ofynion cyflawni a chymhwyso

2.8 Mae WEFO wedi cryfhau'r archwiliadau y mae'n eu cynnal i sicrhau nad yw prosiectau ond yn gwario arian yr UE yn unol â meini prawf caeth. Yn ystod y rhaglen flaenorol yn 2007-2013, canfu archwilwyr y Comisiwn Ewropeaidd rai problemau technegol yn y ffordd yr âi WEFO ati i archwilio gwariant prosiectau. Canfu'r archwilwyr hefyd rai problemau gyda'r arweiniad a ddarparai WEFO i noddwyr prosiectau. O ganlyniad, fe wnaeth yr UE atal taliadau dros dro i Gymru yn ystod 2014. Ymatebodd WEFO yn gyflym i gryfhau ei harchwiliadau ac ailddechreuodd yr UE wneud taliadau. Mae adroddiad rheoli blynyddol 2018 EFAT yn datgan bod systemau rheoli WEFO yn gweithredu'n effeithiol.

2.9 Mae rheolaethau WEFO dros gyllid yn golygu mai cyfradd 'gamgymeriadau' isel iawn sydd ganddi. Yn ei adroddiad rheoli blynyddol yn 2018, canfu EFAT mai ond 0.05%[20] o'r gwariant a archwiliwyd a oedd â chamgymeriad. Mae'r gyfradd gamgymeriadau gyffredinol hon yn llawer is na'r 'lefel perthnasedd' o 2% a fyddai'n sbarduno her ac ymyrraeth oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd. Mae hefyd yn welliant ar y gyfradd gamgymeriadau o 0.39% ar ddiwedd y cylch blaenorol.

2.10 Mae WEFO wedi gweithredu i sicrhau nad yw'r anawsterau diweddar gyda phrinder staff yn effeithio ar ei dull o archwilio hawliadau am wariant. Mae WEFO yn cynllunio ar y sail o gael 190 o staff cyfwerth ag amser llawn. Rhwng mis Mawrth 2017 a Mawrth 2018, roedd gan WEFO brinder staff a oedd yn amrywio o 11% i 16%. Dywedodd WEFO wrthym fod staff, yn ystod yr amser hwn yn gweithio goramser i sicrhau bod yr holl archwiliadau gofynnol ar brosiectau yn cael eu cwblhau. Hefyd, mae'r ansicrwydd ynglŷn â Brexit yn golygu bod rhai staff na wyddant a fydd eu hangen ar ôl mis Mawrth 2019 ac maent wedi bod yn chwilio am swyddi mewn llefydd eraill. Mae WEFO yn effro i'r risgiau hyn ac yn gweithredu. Nid oedd gan WEFO lawer o ddewis oherwydd cyfyngiadau Llywodraeth Cymru ar recriwtio a hyrwyddo. Fodd bynnag, ddechrau 2018, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gymeradwyo achos busnes WEFO, gan ganiatáu iddi recriwtio a phenodi staff o fewn ei chyllideb bresennol.

20 Rhagolwg o'r camgymeriadau yw 0.05% sy'n seiliedig ar sampl ystadegol o wariant prosiectau wedi'i gyfrifo yn unol â chanllawiau'r Undeb Ewropeaidd.

Mae trefniadau clir ar waith ar gyfer monitro ac adrodd ar y cynnydd gyda'r rhaglen gyffredinol

2.11 Mae gan WEFO wybodaeth dda i dracio cynnydd y rhaglen. Canfu ein hadroddiad ym mis Ebrill 2014 ar Raglen y Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 fod cyflwyno'r System Rheoli Gwybodaeth Prosiectau a Rhaglenni (PPIMS)[21] wedi ei gwneud yn llawer haws i WEFO reoli cyllid y rhaglen. Mae PPIMS hefyd yn cofnodi'r wybodaeth ar allbynnau a chanlyniadau prosiectau. Cadarnhaodd adroddiad rheoli blynyddol 2018 EFAT fod y data ariannol yn PPIMS yn gywir a chyflawn[22] o ran y ffigurau a archwiliwyd i gefnog'r cyfrifon a gyflwynwyd i'r Comisiwn Ewropeaidd.

2.12 Caiff y data o PPIMs eu defnyddio i fonitro a chyflwyno adroddiadau drwy gyfrwng amrywiol haenau'r dulliau o oruchwylio rhaglenni (Atodiad 4). Nid ydym wedi profi'r trefniadau yn fanwl. Fodd bynnag, fe wnaethom arsylwi dau gyfarfod o'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni cyffredinol. Canfuom fod y wybodaeth a gyflwynwyd ar Gronfeydd Strwythurol yn gynhwysfawr, er bod swm a chymhlethdod y deunydd yn gallu ei gwneud yn anodd nodi'r meysydd pwysicaf i'w harchwilio. Mae WEFO wrthi'n diwygio fformat y papurau i roi crynodeb cliriach o'r materion allweddol. Darparodd aelodau'r Pwyllgor lefel dda o her ar gyllid, cyflenwi a materion ehangach. Roedd staff WEFO a oedd yn bresennol yn wybodus ac yn gallu darparu atebion manwl i ymholiadau.

21 Mae PPIMS yn system at y pwrpas y mae WEFO yn ei defnyddio i gofnodi a storio ar ffurf gyfrifiadurol ddata ar bob gweithrediad sy'n ofynnol ar gyfer monitro, gwerthuso, rheolaeth ariannol, dilysu ac archwilio.

22 Nid yw EFAT wedi gwneud profion ar y data nad yw'n ddata ariannol.

Rhan 3

Nid yw'n glir eto beth ddaw yn lle'r cronfeydd strwythurol ar ôl Brexit ond mae WEFO a Llywodraeth Cymru yn ceisio siapio'r trafodaethau

3.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn edrych ar yr egin gynlluniau ar gyfer cael darpariaeth yn lle'r Cronfeydd Strwythurol ar ôl Brexit. Nid yw'r adran hon yn gwneud sylw ar rinweddau'r cynlluniau. Adeg drafftio'r adroddiad hwn, mae Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ymchwiliad i ddarpariaeth yn lle cronfeydd yr UE. Rydym wedi datgan safbwynt Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar ddyfodol cyllid rhanbarthol adeg drafftio. Yn y pendraw, mae'r cwestiwn pa haen o'r llywodraeth sy'n gyfrifol am unrhyw gynllun newydd yn fater gwleidyddol a chyfansoddiadol sydd i'w drafod rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig.

Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno Cronfa Ffyniant Gyffredin ond nid yw eto wedi datgan manylion allweddol ynglŷn â gwerth y gronfa na sut bydd yn gweithredu

3.2 Yn lle ffrwd gyllid yr UE, mae Llywodraeth y DU yn bwriadu sefydlu Cronfa Ffyniant Gyffredin. Adeg drafftio'r adroddiad hwn, ychydig iawn o fanylion sydd ar gael ynglŷn â sut beth fydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Mewn llythyr at Gadeirydd Pwyllgor Gwaith a Phensiynau Senedd y DU, dywedodd yr Adran Gwaith a Phensiynau: 'Rydym hefyd yn awyddus i sicrhau bod dyluniad y Gronfa [Ffyniant Gyffredin] yn lleihau biwrocratiaeth ac mor syml ac mor hawdd â phosibl yn weinyddol i dderbynwyr ei defnyddio'. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu dechrau ymgynghori ar ei chynigion ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn hydref 2018. Dyma rai o'r materion allweddol sy'n peri ansicrwydd i Gymru:

a ai cynllun sengl fydd y Gronfa a gaiff ei rhedeg gan Lywodraeth y DU ynteu a fydd y llywodraethau datganoledig yn pennu drostynt eu hunain sut caiff y cynllun ei redeg yn eu priod rannau o'r DU; a

b gwerth y Gronfa, a fydd yn cyfateb ynteu'n rhagori ar lefelau cyllid cyfredol yr UE, a pha reolau a gofynion a geir o bosibl, er enghraifft, o safbwynt arian cyfatebol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei gweledigaeth ar gyfer dyfodol buddsoddi rhanbarthol ac mae eisiau i'r rheolaeth lawn drosto a'r cyllid gael eu datganoli

3.3 Ym mis Rhagfyr 2017, cynhyrchodd Llywodraeth Cymru bapur polisi ar **Fuddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit**. Mae'r papur yn datgan gwrthwynebiad Llywodraeth Cymru i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin fel rhaglen DU-gyfan. Cyflwynodd ddadl dros ddatganoli'r cyllid ac i'r cyllid hwnnw fod ar yr un lefel ag a ddarparwyd gan yr UE, fan leiaf. Galwodd y papur hefyd am i'r broses o lunio polisi rhanbarthol gael ei datganoli i Lywodraeth Cymru.

3.4 Wrth ddatgan ei syniadau am ddyfodol buddsoddi rhanbarthol, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio dysgu gwersi o brofiad WEFO yn rheoli'r Cronfeydd Strwythurol. Mae papur polisi Llywodraeth Cymru yn glir bod Llywodraeth Cymru eisiau 'gweld mwy na newid tebyg am debyg'. Mae'n nodi nifer o gyfleoedd i wella'r cynllun newydd yn ogystal ag adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd. Yn benodol, mae'n nodi cyfleoedd i asiantaethau ac ardaloedd gydweithio'n well gyda'i gilydd, gyda ffocws mwy cadarn ar weithio'n rhanbarthol, drwy ail-siapio meini prawf cyllido.

3.5 Mae Llywodraeth Cymru a WEFO wedi cysylltu ag amrywiol sefydliadau mewn digwyddiadau yng ngogledd a de Cymru a chynhaliodd arolwg agored ar-lein i gasglu barn am set o egwyddorion arfaethedig (Blwch 4) ar gyfer buddsoddi rhanbarthol i'r dyfodol. Mae WEFO wedi comisiynu gwerthuswyr annibynnol i ddadansoddi'r safbwyntiau. Cyhoeddodd WEFO adroddiad yn cyflwyno'r dadansoddiadau ddiwedd Mehefin 2018 a ddaeth i'r casgliad bod y dull gweithredu cyffredinol a ddisgrifiwyd gan Lywodraeth Cymru yn cael ei groesawu drwyddi draw.

Blwch 4: egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddi rhanbarthol i'r dyfodol

- Gweithio'n fwy cadarn mewn partneriaeth.
- Cyflwyno rhaglenni hirdymor, aml-flwyddyn i ennyn hyder buddsoddwyr.
- Cyfuniad o fuddsoddiadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sy'n ategu ei gilydd.
- Rôl amlycach i bartneriaethau rhanbarthol ac unioni'r adnoddau mewn cysylltiad â hynny.
- Integreiddio mwy ar wahanol feysydd polisi gan ganolbwyntio ar bobl a lleoedd.
- Integreiddio ffynonellau nawdd a modelau ariannu.
- Mwy o ffocws ar ganlyniadau, gan sicrhau eu bod yn cynnwys anghydraddoldeb, lles, cynhwysiant a chynaliadwyedd amgylcheddol.
- Trefniadau mwy cadarn ar gyfer monitro a gwerthuso ond cyflwyno symlrwydd a chymesuredd.
- Symleiddio'r rheolau a'r meini prawf gan sicrhau tegwch i bawb ar yr un pryd.
- Annog mwy o risg er mwyn denu buddsoddiadau sector preifat ac arloesi.
- Hybu cydweithrediadau ar draws y ffin.

3.6 Mae’n anochel bod dyfodol WEFO yn ansicr nes ceir eglurder ynglŷn â’r hyn a ddaw yn lle’r Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru. Os caiff y cyfrifoldeb dros unrhyw gynllun newydd ei ddatganoli i Gymru, credwn mai da o beth fyddai cynnal y manteision positif a geir o werthuso a monitro prosiectau’n drylwyr, a’r sgiliau a’r profiad y mae staff WEFO wedi’u meithrin dros nifer o flynyddoedd. Os na chaiff y rhaglen newydd ei datganoli, da fyddai sicrhau bod arbenigedd WEFO yn cael ei ddefnyddio i gryfhau prosiectau a rhaglenni mewn mannau eraill yn sector cyhoeddus Cymru.

Atodiadau

Atodiad 1 – Dulliau Archwilio

Adolygu dogfennau a dadansoddi data

Fe wnaethom adolygu ystod eang o ddogfennau gan gynnwys:

- Dogfennau arweiniad WEFO
- Adolygiadau o'r Rhaglenni a gomisiynwyd yn annibynnol
- Archwiliadau'r Comisiwn Ewropeaidd
- Data ariannol a pherfformiad a ddarparwyd gan WEFO
- Briffiau gweinidogol
- Cofnodion o amrywiol gyfarfodydd gan gynnwys y Pwyllgor Monitro Rhaglenni.

Hunan-asesiad a gwblhawyd gan WEFO

Cwblhaodd WEFO hunan-asesiad drwy ateb set o gwestiynau a osodom, yn ymwneud â'r ffordd yr oedd yn rheoli'r rhaglen, yng ngoleuni'r risgiau a'r cyfleoedd oherwydd Brexit. Roedd y cwestiynau'n ymwneud â'r gwersi a ddysgwyd o adolygiadau blaenorol, y cyfeiriad strategol cyffredinol, a rheoli'r rhaglen gan gynnwys cynnydd gydag ymrwymo cyllid a hawlio cyllid gan yr UE. Cynhwysai hefyd gwestiynau am gynlluniau ar gyfer dyfodol datblygu rhanbarthol ar ôl Brexit.

Adroddiadau Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (EFAT)

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn mynnu bod WEFO yn penodi corff archwilio annibynnol i arolygu a yw'r trefniadau ar gyfer rheoli a'i monitro'r system reoli ar gyfer y rhaglen yn cael eu rhedeg yn effeithlon. Mae'r Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (EFAT) yn rhan o isadran llywodraethu a sicrwydd corfforaethol Llywodraeth Cymru ac mae'n gweithredu fel y Corff Archwilio ar gyfer rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru. Fe wnaethom adolygu nifer o adroddiadau EFAT, yn benodol adroddiad rheoli blynyddol ac adroddiadau ar systemau WEFO ar gyfer gwerthuso ceisiadau prosiectau, monitro cynnydd prosiectau, talu hawliadau grantiau a dilysu ac archwilio prosiectau.

Cyfweliadau

Rydym wedi trafod y dull o weinyddu'r rhaglenni gyda WEFO ac uwch swyddogion yn Llywodraeth Cymru ac wedi cynnal cyfres o gyfweliadau i drafod canfyddiadau newydd ac i egluro agweddau allweddol ar y rhaglenni ac ymholiadau a gododd o hunan-asesiad WEFO.

Arsylwadau

Fe wnaethom fynychu a chynnal arsylwadau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Monitro Rhaglenni ym mis Rhagfyr 2017 a Mai 2018 a hefyd yn y digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid a gynhaliwyd gan WEFO ym mis Chwefror 2018 i ymgynghori ar safbwyntiau am debyg i beth ddylai buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru fod ar ôl Brexit.

Atodiad 2 – Blaenoriaethau Cronfeydd Strwythurol yr UE a'r canlyniadau a'r allbynnau arfaethedig

Mae Ffigur A1 yn dangos pum blaenoriaeth WEFO ar gyfer Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ac mae Ffigur A2 yn dangos y pedair blaenoriaeth ar gyfer Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Ar gyfer pob blaenoriaeth, mae WEFO wedi dangos y 'newidiadau' y bwriedir i'r buddsoddiad eu cyflawni. Mewn rhai achosion, mae'r newidiadau yn seiliedig ar ganlyniadau megis mwy o gyflogaeth leol, mewn eraill allbynnau neu weithredoedd ydynt, megis darpariaeth cyllid ecwiti a benthyciadau.

Ffigur A1: Blaenoriaethau Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a'r canlyniadau a'r allbynnau arfaethedig



Ffynhonnell: data WEFO

Ffigur A2: Blaenoriaethau Cronfa Gymdeithasol Ewrop a'r canlyniadau a'r allbynnau arfaethedig



Ffynhonnell: data WEFO

Atodiad 3 – Newidiadau arfaethedig WEFO i'r rhaglen

Mae Ffigur A3 yn dangos mewn mwy o fanylder y newidiadau arfaethedig i'r rhaglen weithredol a ddisgrifir ym mharagraff 1.7 a Ffigur 6. Mae'r newidiadau hyn yn cael eu cynnig yng ngoleuni'r cynnydd hyd yma ac er mwyn creu blaenoriaeth newydd ar gyfer gweithio rhanbarthol. Nid yw'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cymeradwyo'r newidiadau'n ffurfiol eto.

Ffigur A3: Newidiadau arfaethedig i'r rhaglenni gweithredol

CRONFA DATBLYGU RHANBARTHOL EWROP – GORLLEWIN CYMRU A'R CYMOEDD

Mae WEFO yn cynnig symud £17.0 miliwn o fewn y flaenoriaeth sy'n canolbwyntio ar gystadleurwydd BBaChau. Mae'n cynnig symud y cyllid hwn o gyngor a chymorth busnes a'i ddefnyddio i roi hwb i'r cyllid ecwiti ar gyfer ymchwil, datblygu ac arloesi dan yr offer ariannol a reolir gan Fanc Datblygu Cymru.

CRONFA DATBLYGU RHANBARTHOL EWROP – DWYRAIN CYMRU

Mae WEFO yn cynnig symud £14.9 miliwn o'r flaenoriaeth sy'n canolbwyntio ar ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni a symud £10.0 miliwn ohono i'r flaenoriaeth sy'n canolbwyntio ar ymchwil ac arloesi a £4.9 miliwn arall i'r flaenoriaeth sy'n canolbwyntio ar gystadleurwydd BBaCHau.

CRONFA GYMDEITHASOL EWROP – GORLLEWIN CYMRU A'R CYMOEDD

Mae WEFO yn cynnig cymryd £6.9 miliwn allan o'r flaenoriaeth sy'n canolbwyntio ar Drechu tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy a £6.9 miliwn arall allan o'r flaenoriaeth sgiliau ar gyfer twf a rhoi'r cyfanswm o £13.9 miliwn i'r flaenoriaeth newydd o'r enw meithrin capasiti sefydliadau.



CRONFA GYMDEITHASOL EWROP – DWYRAIN CYMRU

Mae WEFO yn cynnig cymryd £10.0 miliwn allan o'r flaenoriaeth i drechu tlodi drwy Gyflogaeth Gynaliadwy a £7.9 miliwn pellach allan o'r flaenoriaeth sgiliau a thwf a rhoi £12.9 miliwn ohono i'r flaenoriaeth newydd o'r enw meithrin gallu sefydliadau a gweithio'n rhanbarthol. Mae WEFO hefyd yn cynnig rhoi gweddill y £4.9 miliwn i'r flaenoriaeth ar gyfer cyflogaeth a chyrhaeddiad pobl ifanc.



Mae'r ffigurau'n seiliedig ar gyfradd gyfnewid o £1:€1.17 a allai newid

Ffynhonnell: data WEFO

Atodiad 4 – Goruchwylio a monitro rhaglenni

Mae Ffigur A4 yn dangos mewn mwy o fanylder y trefniadau goruchwylio a monitro, y cyfeirir atynt ym mharagraff 2.12.

Ffigur A4: strwythur goruchwylio a monitro WEFO



PPIMs	System TG WEFO sy'n cynnwys yr holl wybodaeth ariannol, a gwybodaeth am gymeradwyo a pherfformiad prosiectau.
Is-adran Rheoli Rhaglenni (PMD)	Mae WEFO wedi sefydlu tîm o swyddogion sy'n gweithio yn yr isadran hon. Eu rôl yw gweithio gyda buddiolwyr yn gynnar yn y broses o ddatblygu syniadau gweithrediad i gynghori ar pa mor llwyddiannus y gallai gyfrannu at allbynnau ar lefel y rhaglen.
Technical and Financial Appraisal Team (TFAT)	Mae TFAT WEFO yn cynorthwyo staff y PMD sy'n gyfrifol am werthuso a dethol gweithrediadau. Mae gan TFAT nifer o gyfrifwyr cymwysedig i sicrhau bod gan fuddiolwyr y capasiti ariannol i redeg eu gweithrediadau.

Adolygu prosiectau	Mae'r PMD yn adolygu'n barhaus berfformiad a chynnydd pob gweithrediad. Mae'n cynnwys – ar ôl cyflwyno pob hawliad i WEFO – y perfformiad hyd yma yn erbyn dangosyddion canlyniadau, allbwn a gwariant a amlinellwyd. Yn ogystal â dangosyddion / proffiliau, mae'r PMD yn ystyried effeithiolrwydd cyffredinol ac effaith gweithgareddau'r gweithrediad i sicrhau bod y canlyniadau dymunol yn debygol o gael eu cyflawni. Mae'r PMD yn adnabod ac yn monitro risgiau a phryderon gydol oes gweithrediad ac yn cyfarfod gyda'r buddiolwr ar ôl cyflwyno pob hawliad, ochr yn ochr â'r timau perthnasol yn WEFO, i drafod cynnydd, perfformiad a phryderon. TFAT – yn adolygu gwybodaeth ariannol buddiolwyr posibl a chyfredol i sicrhau bod ganddynt y capasiti ariannol i redeg eu gweithrediadau. Archwiliadau dilysu rheolaeth – yn rhedeg fframwaith o archwiliadau a rheolaethau ar hawliadau a ddaw i law oddi wrth buddiolwyr a drwy ymweliadau safle, i sicrhau bod y gwariant a gynhwysir yn y ceisiadau hawlio gan WEFO yn cydymffurfio â'r rheolau.
Adolygiadau sicrwydd ansawdd Cyrff Cyfryngol (IBs)	Mae WEFO yn adolygu hawliadau a gyflwynir gan IBs cyn cynnwys gwariant yn yr hawliad gan y CE.
Grŵp adolygu Cyrff Cyfryngol	Mae WEFO wedi sefydlu grŵp adolygu IBs i drafod sut mae prosiectau'n cael eu cyflenwi, a chanfod unrhyw risgiau a chamau gweithredu sy'n angenrheidiol. Mae'r grŵp hefyd yn adolygu'r archwiliadau o systemau ac adolygiadau Sicrwydd Ansawdd IB's WEFO.
Grŵp Rheoli Risg Rhaglenni (PMG)	Mae'r PMG yn monitro risgiau a phrosesau ar draws y rhaglen drwy gyfrwng nifer o gofrestri risg.
Grŵp cyflawni a chydymffuriaeth	Mae'r grŵp hwn yn ystyried ac yn adolygu materion cyflawni a chydymffurfiaeth sy'n effeithio ar raglenni. Mae'r Grŵp yn cynnwys rhanddeiliaid mewnol ac allanol ac mae fel arfer yn cyfarfod bob chwarter.
Bwrdd perfformiad rhaglenni	Yn gyfrifol am gynllunio, monitro a chyfarwyddo'r ffordd y caiff rhaglenni eu cyflenwi.
Pwyllgor Monitro Rhaglenni	Dan reoliadau'r UE, mae gofyn i Aelod-wladwriaethau benodi pwyllgorau monitro i sicrhau bod rhaglenni gweithredol yn cael eu gweithredu'n gywir. WEFO sy'n cadeirio a cheir partneriaid rhanbarthol, economaidd a chymdeithasol.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru